# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ar ddydd Mawrth, 9 Mai 2023 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y CynghorwyrMichelle Blakeley-Walker, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Kelly Clewett, Ann Davies, Karen Edwards, Pauline Edwards, Gwyneth Ellis, James Elson, Chris Evans, Hugh Evans, Justine Evans, Bobby Feeley, Gill German, Jon Harland, Elen Heaton, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Delyth Jones, Paul Keddie, Diane King, Geraint Lloyd-Williams, Julie Matthews, Jason McLellan, Barry Mellor, Terry Mendies, Win Mullen-James, Merfyn Parry, Pete Prendergast (Is-gadeirydd), Arwel Roberts (Cadeirydd), Gareth Sandilands, Peter Scott, Rhys Thomas, Andrea Tomlin, David Williams, Elfed Williams, Emrys Wynne a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW), Rheolwr Cefnogi Busnes (EW), Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), Rheolwr Tai a Chynllunio Strategol (AL), Prif Swyddog Cynllunio Polisi (LG); Rheolwr Prosiect AD - Cyflogau a Gwobrwyo (SV), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP),

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Cheryl Williams ac Eryl Williams.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Kelly Clewett fuddiant personol yn eitem 12 gan ei bod yn uwch weithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Datganodd y Cynghorydd James Elson gysylltiad personol yn eitem 13 gan ei fod yn aelod nad yw’n hela o Helfa Dinbych a Fflint.

## 3 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Adroddodd y Cadeirydd y Cyngor sy’n ymadael, y Cynghorydd Arwel Roberts ar y digwyddiadau dinesig yr oedd wedi ei fynychu a chyfrannu, a gweithgareddau codi arian i elusen yr oedd wedi’i gyflawni yn ystod ei flwyddyn fel Cadeirydd.

Diolchodd y Cadeirydd i unigolion allweddol a oedd wedi cefnogi ei waith yn ystod ei dymor fel Cadeirydd y Cyngor.

Cyflwynodd y Cadeirydd sieciau i elusennau sy'n cael eu cefnogi gan ei gronfa elusen, sy'n berthnasol i gymorth i ddementia a phrosiect Book of You; a Chymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant yn anelu i gefnogi gwirfoddolwr NSPCC ym Mhrestatyn.

Gofynnodd y Cadeirydd i swyddogion y Cyngor, Ann Lloyd a Tony Mayles i'r llwyfan i egluro eu gweithgaredd diweddar o blymio o awyren a wnaethant ar gyfer elusen Childline.

## 4 PENODI CADEIRYDD Y CYNGOR SIR

Gofynnodd Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Arwel Roberts am enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd newydd i'r Cyngor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023 - 2024. Cynigiodd y Cynghorydd Jason McLellany dylid penodi'r Cynghorydd Pete Prendergast yn Gadeirydd, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Joan Butterfield.

Ni chynigwyd unrhyw enwebiadau pellach, a nodwyd cadarnhad y cyfarfod i'r penodiad.

Datganodd y Cynghorydd Prendergast ei bod yn derbyn y swydd fel Cadeirydd a chyhoeddodd mai ei gonsort fydd y Cynghorydd Diane King. Rhoddodd deyrnged i'r Cadeirydd a Chonsort blaenorol am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

PENDERFYNWYD - Penodi'r Cynghorydd Pete Prendergast yn Gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023- 2024.

## 5 PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR SIR

Gofynnodd Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Prendergast am enwebiadau ar gyfer penodi Is- gadeirydd newydd i'r Cyngor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023 - 2024. Cynigiwyd y Cynghorydd Peter Scott gan y Cynghorydd Hugh Irving ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts.

Ni chynigiwyd unrhyw enwebiadau pellach, a nodwyd cadarnhad y cyfarfod i'r penodiad.

Derbyniodd y Cynghorydd Scott y swydd fel Is-gadeirydd a chyhoeddodd mai ei gonsort fydd ei wraig, Susan Scott.

PENDERFYNWYD - Penodi'r Cynghorydd Peter Scott yn Is-Gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023- 2024.

## 6 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 7 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2023 (wedi'u dosbarthu'n flaenorol) i'w hystyried.

PENDERFYNWYD - derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2023 a chadarnhau eu bod yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**8 STRATEGAETH DDEWISOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD - ADRODDIAD YMGYNGHORI**

Cyflwynwyd adroddiad o'r enw Strategaeth Ddewisol y Cynllun Datblygu Newydd - Adroddiad Ymgynghori (dosbarthwyd ymlaen llaw) gan yr Aelod Arweiniol y Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl), y Cynghorydd Win Mullen-James.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mullen-James ar rôl y Grŵp Cynllunio Strategol, yr oedd hi fel aelod arweiniol yn ei gadeirio. Adlewyrchodd y Cynghorydd Mullen-James at bwysigrwydd y Grŵp i ymgysylltu ag aelodau'r Cyngor i ddatblygu CDLl Newydd.

Dywedodd Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad bod y Strategaeth Ddewisol yn nodi'r weledigaeth, amcanion, twf, strategaeth ofodol, polisiau allweddol a fframwaith y CDLl drafft, ac roedd angen cymeradwyaeth y Cyngor cyn y gall y broses CDLl symud ymlaen i'r cam nesaf o ymgynghoriadau. Amlygodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad:

- Ymgynghorwyd ar y strategaeth ddewisol yn 2019, ond roedd pandemig Covid a newidiadau yn y dystiolaeth wedi oedi adrodd yn ôl tan yn awr. Roedd y diwygiadau allweddol a argymhellwyd yng Ngweledigaeth 2019 yn cynnwys amlygrwydd cynyddol mewn agweddau megis newid hinsawdd, ynni adnewyddadwy, teithio llesol a charbon niwtral.
- Y newidiadau arfaethedig allweddol o'r Strategaeth Dwf oedd lleihau tir cyflogaeth defnydd-B gael ei ddyrannu yn y sir.
- Y diwygiad allweddol a argymhellir i'r Strategaeth Ofodol oedd cael gwared ar Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan o'r CDLl oherwydd pryderon ynghylch darpariaeth a chynaliadwyedd y safle.
- Argymhellwyd hefyd bod y targed ar gyfer tai fforddiadwy yn cynyddu, gan fod nifer o dai fforddiadwy wedi cael eu hadeiladu a bod cwmpas i fod yn fwy uchelgeisiol. Byddai aelodau yn cael eu hymgynghori ar y targed gwirioneddol cyn mynd i CDLl Newydd.
- Roedd yr Ymgynghoriad Strategaeth a ffefrir a oedd yn cael ei ystyried heddiw wedi cael ei argymell i'w gymeradwyo gan y Grŵp Cynllunio Strategol a gan y Cabinet, ac mi wnaeth Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad argymell yr adroddiad heddiw i'r Cyngor.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Mark Young y nod o gael y tai cywir yn y lle cywir ac yn cefnogi'r dull cyffredinol oedd yn cael ei gyflawni. O ran Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, amlygodd yr anawsterau cyfredol yr oedd preswylwyr yn eu hwynebu i gael mynediad at wasanaethau iechyd ac roedd yn bryderus na ddylai'r datblygiadau newydd waethygu'r sefyllfa ar gyfer darpariaeth gwasanaeth iechyd. Argymhellodd y Cynghorydd Young bod y Bwrdd Iechyd yn mynychu cyfarfodydd o'r Grwpiau

Ardal yr Aelodau. Mewn perthynas â seilwaith datblygiadau newydd, gofynnodd y Cynghorydd Young sut y byddai seilwaith carthion sydd ddim yn ymdopi yn awr yn gweithio gyda thai ychwanegol yn cael eu hychwanegu i'r seilwaith.

Cytunodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad bod angen agwedd fwy cyfannol a thrafodaethau buan gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu strategaeth, a bod angen gwell ffocws ar y materion hyn ar ôl i safleoedd unigol gael eu trafod.

Cytunodd y Rheolwr Strategol Cynllunio a Thai bod gweithio gyda'n gilydd gyda phartneriaid sydd yn darparu gwasanaeth iechyd a chyfleustodau yn hanfodol a pharhaus; a chadarnhaodd bod y Bwrdd Iechyd yn mynychu cyfarfod Grŵp Cynllunio Strategol yn fuan. Roedd y Rheolwr yn ymwybodol bod nifer o broblemau presennol a gwelliannau, ac roedd angen gwaith partneriaeth er mwyn darparu dyheadau'r CDLl.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Brian Jones, cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad bod y broses yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus arall. Amlinellodd y Rheolwr Strategol Cynllunio a Thai y cam sylweddol nesaf fyddai'r cam adneuo, ond byddai ymgynghoriad pellach, er enghraifft ar gyfer cynghorau dinas, tref a chymuned. Dywedodd y Rheolwr Strategol Cynllunio a Thai bod safleoedd posibl wedi cael eu hadolygu gan aelodau mewn gweithdai a bydd cyswllt pellach yn cael ei wneud i berchnogion tir. Nid oedd yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau penodol gyda pherchnogion tir ynghylch cyfnewid tir posibl.

Mewn perthynas â safleoedd posibl, cytunodd y Rheolwr Strategol Cynllunio a Thai gyda'r Cynghorydd Hilditch-Roberts a chadarnhaodd y bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i wahaniaethu ar gyfer y cyhoedd, y gwahaniaeth rhwng cyhoeddi safleoedd posibl a dyrannu safleoedd yn y CDLl sydd i'w harchwilio a chaniatau caniatâd cynllunio. Byddai'r tim CDLl yn sicrhau bod aelodau lleol yn cael eu hysbysu cyn cyhoeddi'r CDLl sydd i'w harchwilio.

Cododd y Cynghorydd David Williams amheuon ynghylch a fyddai'r trafodaethau gyda'r bwrdd iechyd a darparwyr cyfleustodau, a gyfeiriwyd yn gynharach yn y drafodaeth, yn arwain at welliannau, gan nodi problemau difrifol o gael mynediad at ofal iechyd a rhyddhau carthion i gwrs dŵr fel enghreifftiau.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn -

(i) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.
(ii) yn cymeradwyo'r Strategaeth a Ffefrir fel y diwygiwyd yn yr adroddiad hwn;
(iii) yn cymeradwyo'r Strategaeth a Ffefrir gymeradwy fel y diwygiwyd yn yr adroddiad hwn yn ffurfio sail i ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol Newydd i'w Archwilio i gael ei ymgynghori.
(iv) yn awdurdodi'r Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad i gytuno ar unrhyw fân newidiadau a

chywiriadau sydd eu hangen i Strategaeth a Ffefrir Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych.

**9 DATGANIAD POLISI TÂL 2023- 2024**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Gwyneth Ellis, adroddiad ar y Datganiad Polisi Tâl 2023 -2024 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Dywedodd y Cynghorydd Ellis bod paratoi'r datganiadau polisi tâl a'u cymeradwyo gan y Cyngor yn flynyddol, yn ddyletswydd statudol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011. Roedd y datganiadau hyn yn cael eu cyflwyno fel polisiau'r awdurdod o ran materion tâl, yn benodol y rhai sy'n berthnasol i'r prif swyddogion a'r gweithwyr sydd ar y tâl isaf.

Amlygodd y Rheolwr Prosiect AD - Cyflogau a Dyfarniadau'r prif feysydd o newid o'r datganiad y flwyddyn flaenorol, y brif rai oedd y dyfarniadau tâl cenedlaethol a thâl prif weithredwr a oedd dal yn cael eu trafod. Cadarnhawyd bod cyflog y prif swyddog wedi'i dderbyn a bydd y ddogfen yn cael ei diweddaru yn unol â hynny. Roedd y gymhariaeth fwyaf diweddar rhwng y rhai a delir fwyaf a'r lleiaf yn yr Awdurdod wedi dangos bod ffigurau Sir Ddinbych yn gyfforddus o fewn y paramedrau a nodir yn yr adroddiad Hutton ar gyflog teg yn y sector cyhoeddus.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn -

(i) yn derbyn yr argymhelliad y Panel Tâl Uwch Arweinyddiaeth a chymeradwyo'r Polisi Tâl ar gyfer 2023-2024 fel y dengys yn Atodiad i'r adroddiad.
(ii) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad B) fel rhan o'i ystyriaethau.

**10 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL A PHENODI CADEIRYDDION Y PWYLLGORAU CRAFFU**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar yr Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol a Phenodi Cadeiryddion Archwilio (dosbarthwyd yn flaenorol).

Cynghorwyd y Cyngor bod ystyried y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol yn ddyletswydd statudol bob blwyddyn.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd at y wybodaeth ar y sefyllfa cydbwysedd gwleidyddol ac aelodaeth y pwyllgor a oedd wedi'i atodi i'r adroddiad hwn. Dywedodd bod y wybodaeth sydd wedi'i atodi wedi'i rannu gydag Arweinwyr Grŵp ar adegau priodol drwy gydol y flwyddyn.

PENDERFYNWYD - Bod y Cyngor yn ystyried y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer dyrannu seddi pwyllgor.

**11 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Irving gynnig ar ran y Grŵp Ceidwadwyr Cymreig (dosbarthwyd yn flaenorol) o ran y golled flaenorol o lety ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru ym Mhrestatyn. Nododd y Cynghorydd Irving yr angen i ddod o hyd i adeilad newydd addas.

Cafodd y cynnig ei eilio, dywedodd yr aelod arweiniol y Cynghorydd Rhys Thomas ei fod yn ymwybodol ac yn gefnogol o ymdrechion parhaus gyda'r heddlu i ddod o hyd i adeilad addas ar gyfer yr heddlu i gael presenoldeb parhaol ym Mhrestatyn. Dywedodd wrth yr aelodau bod y cynnig hwn yn cefnogi'r ymdrechion hynny a oedd wedi bod yn parhau ers peth amser.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Jason McLellan, ei fod wedi trafod mewn cyfarfod diweddar gyda'r Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ym Mhrestatyn safleoedd posibl. Dywedodd y Cynghorydd McLellan bod y Cyngor eisoes yn gwneud beth yr oedd y cynnig yn ofyn amdano. Soniodd y Cynghorydd McLellan a Kelly Clewett am eu dealltwriaeth hwy o rôl y Cyngor blaenorol o gael gwared ar wasanaethau cyhoeddus o adeilad Nant Hall.

Cynigiodd y Cynghorydd McLellan ddiwygiad i'r cynnig, ac eiliwyd, yn newid y paragraff terfynol i amlygu ymdrechion parhaus y Cyngor i gynorthwyo'r Heddlu ddod o hyd i ganolfan ym Mhrestatyn. Cafwyd bleidlais yn cadarnhau'r cynnig fel y diwygiwyd a ddaeth yn prif cynnig.

PENDERFYNWYD - Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig canlynol:

"Mae pryder o fewn Cymuned Prestatyn bod un o'r trefi mwyaf yng Ngogledd Cymru, sawl blwyddyn ar ôl i Bencadlys yr Heddlu a chyfleusterau lleol gael eu hadleoli i Barc Busnes Llanelwy, yn parhau i fod heb unrhyw Gyfleusterau Heddlu yn y dref.

Mae bob eiddo trethadwy ym Mhrestatyn yn cyfrannu o leiaf £330 i gyllido Gwasanaeth yr Heddlu. Gyda nifer o ddatblygiadau preswyl ar waith bydd y swm hwn yn cynyddu'n sylweddol ond gyda phoblogaeth uwch y daw galw ac mae eisoes problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd angen ymyrraeth yn aml.

Mae'r grŵp yn cydnabod nad oes llawer o le yn rhaglen gyfalaf Heddlu Gogledd Cymru
i adeiladu cyfleusterau newydd ond mae cyfle i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu safle i Heddlu Gogledd Cymru sy'n addas ar gyfer Gorsaf Heddlu lleol o fewn Prosiect Canol Tref sydd bron a'i gwblhau.

Cynigir bod y Cyngor yn gwneud penderfyniad i ofyn i'r Awdurdod ddwysau eu trafodaethau ynghylch y safle hwn gyda Heddlu Gogledd Cymru a chymryd bob cam o fewn eu gallu i drafod telerau a fydd yn bodloni'r nod hwn. Cydnabu'r Cyngor bod y swyddogion eisoes yn cael trafodaethau gyda Heddlu Gogledd Cymru.

**12 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones gynnig (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar ran Grŵp y Ceidwadwyr. Dywedodd y Cynghorydd Jones bod y cynnig wedi'i ysbrydoli gan 'Alex Angels' ac amlinellodd gefndir grŵp Alex Angels i'r cyfarfod. Rhoddodd deyrnged i ddealltwriaeth y grŵp o'r problemau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, a'r posibilrwydd am ddatrysiadau i ddarparu mwy o gapasiti gwelyau a helpu lliniaru pwysau ar feysydd eraill o wasanaethau'r Bwrdd Iechyd.

Cafodd y cynnig ei eilio, diolchodd yr aelod arweiniol, y Cynghorydd Ele Heaton i Alex Angels am eu cyfraniad gwerthfawr i'r gymuned a dywedodd ei bod hi a Chyfarwyddwr Corfforaethol y Cyngor yn awyddus i gyfarfod â hwy a gwrando ar eu safbwyntiau ynghylch datblygu iechyd a gofal cymdeithasol yn y sir. Wrth drafod y cynnig, dywedodd y Cynghorydd Heaton bod gwelyau i gleifion mewnol wedi cael eu symud o ysbyty Brenhinol Alexandra oherwydd pryderon o ran diogelwch tân, ond roedd ystod o wasanaethau cleifion allanol yn parhau i gael eu darparu o'r safle.

Dywedodd y Cynghorydd Heaton na fyddai'r cynnig yn datrys problemau blocio gwelyau, a oedd yn gymhleth ac yn amlochrog. Dywedodd y Cynghorydd Heaton bod y mwyafrif o bobl yn aros, a bod gwell ganddynt wasanaethau yn y gymuned, a soniodd am y risgiau o rai yn yr ysbyty yn dirywio, lle mae cleifion bregus yn cael trafferthion i ofalu am eu hunain yn cael ei effeithio ymhellach.

Roedd y Cynghorydd Heaton yn dadlau bod rhaid i'r nod fod ar gyfer datrysiadau cynhwysfawr; sef cynnig Achos Busnes Llawn ar gyfer ailddatblygu ysbyty Brenhinol Alexander yn llawn (a elwir yn Brosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych).

Cynigiodd y Cynghorydd Heaton ddiwygiad i'r cynnig fel a ganlyn:

- Bod pob cynghorydd Sir Ddinbych yn ymrwymo i gefnogi Achos Busnes Llawn sydd yn aros am benderfyniad gan Lywodraeth Cymru.
- Bod y Cynghorydd Heaton, fel yr aelod arweiniol, gyda Chyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn cyfarfod gydag Alex Angels i ymgysylltu mewn ymgynghoriad ystyriol ynghylch datblygu iechyd a gofal cymdeithasol yn y sir.
- Bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar Brosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych.

Wrth ymateb i'r aelod arweiniol, bu i'r Cynghorydd Brian Jones, cynigiwr y cynnig gwreiddiol gyfleu pryderon difrifol ynghylch ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni Prosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych; gan gynnwys yr oedi hir a pharhaus i'r prosiect, ac o'i ddealltwriaeth nid oedd cyllid wedi'i ddyrannu i gyflenwi'r prosiect. Gwrthododd safbwynt yr aelod arweiniol a chymeradwyodd deiseb Royal Alexander Angels ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb i adfer capasiti gwelyau i fod yn hyfyw ac yn ymarferol fel datrysiad tymor byr i ganolig.

Ar ôl cael pleidlais, penderfynodd y Cyngor i ddiwygio'r cynnig fel y cynigiwyd gan yr aelod arweiniol.

Cododd y Cynghorydd Ann Davies ei phryderon ynghylch cau ysbytai cymunedol, problemau blocio gwelyau a'r oedi yn adeiladu ysbyty newydd, a chytunodd i gael capasiti gwelyau ychwanegol yn y Royal Alex. Cytunodd y Cynghorydd Chamberlain-Jones â'r sylwadau hyn, gyda'i phrofiadau diweddar o broblemau gyda'r Bwrdd Iechyd yn ei brofi o ran capasiti i gyflawni ei wasanaethau yn y sir.

Dywedodd y Cynghorydd Clewett, gan nodi ei phrofiad fel uwch weithiwr proffesiynol gofal iechyd(ac ar ôl gofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch ei chyflogaeth, datgan buddiant personol ond nad yw'n rhagfarnu), gyda gwybodaeth am ysbytai cymunedol ac Ysbyty Brenhinol Alexandra, dywedodd nad oedd yr ysbyty yn gallu darparu gofal cleifion mewnol yr oedd ei angen, er roedd yn cytuno bod problemau difrifol a phryderon ynghylch darpariaeth gwasanaeth iechyd yn y sir.

PENDERFYNWYD - Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig canlynol:

(i) Bod pob cynghorydd Sir Ddinbych yn ymrwymo i gefnogi achos busnes llawn sydd yn aros am benderfyniad gan Lywodraeth Cymru.
(ii) Bod y Cynghorydd Heaton, fel yr aelod arweiniol, gyda Chyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn cyfarfod gydag Alex Angels i ymgysylltu mewn ymgynghoriad ystyriol ynghylch datblygu iechyd a gofal cymdeithasol yn y sir.
(iii) Bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar Brosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych.

## 13 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Jon Harland, ar ran y Grŵp Parti Gwyrdd, gynnig (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn ceisio cefnogaeth ar gyfer gwahardd hela gyda chŵn, gan gynnwys helfa trywydd ar dir y mae'r Cyngor yn ei berchen.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Harland nad oedd y cynnig ynghylch atal pobl rhag cyflawni unrhyw weithgareddau cyfreithiol ar eu tir eu hunain; yn hytrach roedd yn ceisio anfon neges glir ar safbwynt y Cyngor ar hela gyda chŵn, a byddai'n alinio'r Cyngor gyda'r camau sydd wedi ei chymryd gan berchnogion tir y sector cyhoeddus eraill.

Cafodd y cynnig ei eilio, gofynnodd yr aelod arweiniol, y Cynghorydd Gwyneth Ellis am gywirdeb y cynnig, gan nad oedd y Cyngor eisoes yn rhoi caniatâd i hela gyda chŵn ar dir y mae'r Cyngor yn ei berchen. O ganlyniad, cynigiodd y Cynghorydd Ellis ddiwygiad, a eiliwyd, i eirfa'r cynnig i gadarnhau'r hyn fel a ganlyn:

'Mae'r Cyngor yn nodi cefnogaeth eang ar draws Sir Ddinbych a Chymru i ddod â chreulondeb i anifeiliaid i ben a gwella lles anifeiliaid; ac yn cadarnhau ei gefnogaeth ar gyfer gwaharddiad dros y sir o hela mamaliaid gyda chŵn, gan gynnwys hela trywydd, ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arni.

Yn dilyn trafodaeth bellach codwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth:

- A fyddai’r cynnig yn anfwriadol yn effeithiol ar ladd pla yn gyfreithlon neu reolaeth gywir o rostir a mynyddoedd. Yr ymateb a gafwyd oedd nad oedd lladd pla (yn aml neu fel arfer drwy saethu) yn cael ei ystyried yn hela a bod y gweithgareddau rheoli tir hynny ddim yn cael eu heffeithio gan y cynnig.
- Mewn ymateb i bryder ynghylch a fyddai adnoddau ar gael i orfodi gwaharddiad, cynghorwyd yr aelodau y byddai unrhyw droseddau sy’n digwydd mewn perthynas â hela yn fater ar gyfer yr heddlu. Os byddai’r Cyngor yn canfod bod tir y cyngor yn cael ei ddefnyddio yn groes i ddymuniadau’r Cyngor ac i unrhyw hawliau tenantiaeth, yna byddai’r Cyngor yn cymryd camau gorfodi.

PENDERFYNWYD - Bod y Cyngor yn nodi cefnogaeth eang ar draws Sir Ddinbych a Chymru i ddod â chreulondeb i anifeiliaid i ben a gwella lles anifeiliaid; ac yn cadarnhau ei gefnogaeth ar gyfer gwaharddiad dros y sir o hela mamaliaid gyda chŵn, gan gynnwys hela trywydd, ar dir y mae’r Cyngor yn berchen arni.

## 14 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cyflwynodd y Cadeirydd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

PENDERFYNWYD – nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor.